



# **GALWAD GAN UNDEB AMAETHWYR CYMRU:**

## **I Weithredu ar Fasnachu Carbon**

Er mwyn sicrhau y gall ffermydd teuluol  
Cymru barhau'n rhan o'r ateb



Er mwyn cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol, mae gwledydd a chwmnïau ledled y byd wedi bod ar ras i addo eu targedau neu hawliadau 'sero-net' eu hunain. Mae hyn wedi arwain at don o unigolion a busnesau sy'n ceisio gwrthbwysu eu hallyriadau carbon trwy'r Farchnad Carbon Wirfoddol.

O ganlyniad, mae nifer cynyddol o ffermydd yng Nghymru yn cael eu prynu gan gwmnïau er mwyn plannu coed a gwrthbwysu eu hallyriadau eu hunain, neu werthu'r credydau carbon cysylltiedig yn y dyfodol.

Mae UAC yn dadlau y dylid plannu'r goeden iawn yn y lle iawn am y rhesymau cywir, ac er hynny, mae ganddi bryderon mawr y gallai bachu tir ar gyfer gwrthbwysu carbon arwain at effeithiau negyddol ar ffermydd teuluol Cymru, yr economi wledig, bioamrywiaeth a diwylliant Cymru.

## Er mwyn sicrhau y gall ffermydd teuluol Cymru barhau'n rhan o'r ateb, mae UAC yn cynnig y 10 cam canlynol:

### 1 Rhaid i wrthbwysu ategu nid disodli gostwng allyriadau

Tra bod gwrthbwysu allyriadau yn declyn pwysig wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, ni ddylai dynnu sylw oddi wrth ymdrechion craidd cwmnïau a diwydiannau i fynd i'r afael ag allyriadau, a rhaid sicrhau cydbwysedd sy'n sicrhau nad yw tirweddau, cymunedau a diwydiannau bregus yn dioddef tra bod y rhai pwerus yn ceisio gwrthbwysu allyriadau eu hunain. Byddai methu â sicrhau cydbwysedd priodol rhwng datgarboneiddio a gwrthbwysu yn peryglu caniatáu gwrthbwysu carbon i greu agwedd **'busnes fel arfer'** neu **'trwydded i lygru'** a cwmnïau yn elwa ar fuddsoddiadau wrth wrthbwysu hyd yn oed. Ni allwn wrthbwysu ein ffordd tuag at Sero-Net.

### 2 Ni ellir caniatáu diwydiannau a gwledydd arall i ddadlwytho eu hallrediadau ar dir amaethyddol Cymru

Mae'r galwadau amrywiol a chystadleuol am dir yn cynyddu. O gynhyrchu bwyd ar gyfer poblogaeth fyd-eang sy'n tyfu i gynhyrchu ynni, dim ond un ohonynt yw'r rhuthr presennol i brynu tir ar gyfer gwrthbwysu carbon. Mae angen mecanwaith rheoli i atal symiau diderfyn o garbon sy'n cael ei storio yng Nghymru i gael ei werthu i unigolion a/neu fusnesau y tu allan i Gymru. Ymhlith yr enghreifftiau o opsiynau y mae UAC yn credu y dylid eu harchwilio i atal hyn rhag digwydd yw systemau cwota masnachu carbon, gwell rheolaethau cynllunio ar gyfer prosiectau coedwigo, cyfyngiadau ar y canran o dir sy'n cael ei brynu a all gael 'newid defnydd' a system cap daearyddol ar y gofrestrfa credyd carbon. Gallai Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol hefyd sicrhau nad yw tir fferm - p'un a yw o ansawdd uchel, wedi'i ddosbarthu fel ardal lai ffafriol neu'n cael ei reoli fel cynefin - yn cael ei blannu'n amhriodol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrif credydau marchnad garbon wirfoddol a gynhyrchir o weithgaredd Cymru (megis plannu coed) yn eu rhestr nwyon tŷ gwydr, er gwaethaf y ffaith bod cwmnïau'n prynu credydau o'r fath i wrthbwysu eu hallyriadau eu hunain y tu allan i Gymru. Er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd ar raddfa fyd-eang, ni ddylid cyfrif credydau ddwywaith a gallai hyn ddod yn broblem i Lywodraethau sy'n ceisio cyrraedd targedau sero-net yn y dyfodol, wrth i'r rheolau ynghylch masnachu carbon gael eu datblygu.

### 3

#### Cymunedau nid corfforaethau ar dir Cymru

Nid yw'n gyfrinach bod ffermydd cyfan yn cael eu prynu gan gwmnïau rhyngwladol, ar raddfa frawychus. Mae unrhyw beth sy'n dadleoli ffermwyr, cymunedau gwledig a rheolwyr tir (hynny yw y rhai sydd â'r ddealltwriaeth fwyaf, y wybodaeth a ddaw o un genhedlaeth i'r llall a'r profiad ymarferol o reoli tir) ond yn gwaethygu'r argyfwng hinsawdd a natur ymhellach. Sefydliadau ariannol dienw oedd defnyddwyr mwyaf credydau carbon yn 2019, ac yna'r diwydiannau cemegolion a phetrocemegion, gan ailadrodd yr angen i atal busnesau mawr rhag gallu prynu trwyddedau i lygru.

Ni ddylid gosod targedau lleihau allyriadau'r genedl yn annheg nac yn anghymesur ar dir sy'n addas ar gyfer dal a storio carbon ar draul amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, ffermydd teuluol neu gymunedau gwledig.

### 4

#### Ni ddylai gwerthu credydau carbon o dir fferm thanseilio gallu busnesau fferm i ddod yn Sero-Net eu hunain yn y dyfodol

Mae'r pwysigrwydd o ddangos sero-net, a phris carbon yn debygol o gynyddu. Bydd manwerthwyr megis yr archfarchnadoedd yn chwilio am gyflenwyr ffermio carbon isel, tra gellir cyflwyno treth garbon yn y dyfodol. Yn hynny o beth, efallai bod ffermwyr sy'n gwerthu credydau carbon nawr (neu'n rhy rhad) mewn sefyllfa yn y dyfodol lle bydd angen iddynt brynu credydau eu hunain am bris uwch er mwyn gwrthbwysu eu hallyriadau eu hunain, gan fod y carbon sy'n cael ei storio yn eu priddoedd eu hunain yn cael ei ddefnyddio i wrthbwysu allyriadau yn rhywle arall. Dylai busnesau fferm unigol, sector amaethyddol Cymru a Chymru fel cenedl ganolbwyntio ar ddod yn sero-net yn gyntaf cyn i gredydau gael eu gwerthu y tu hwnt i'r ardaloedd hyn.

### 5

#### Mae angen llywodraethu effeithiol i sicrhau bod y Farchnad Carbon Wirfoddol yn cael ei rheoleiddio

Mae'r cysyniad o wrthbwysu carbon yn gweithio dim ond os yw'r credydau a werthir gwirioneddol yn cael gwared ar y swm o allyriadau nwyon tŷ gwydr a addawyd/a fasnachwyd allan o'r atmosffer. Fodd bynnag, mae'r farchnad garbon wirfoddol bresennol yn "gweithredu yn y cysgodion", gyda rhywfaint o dda, "ond llawer o ddrwg" yn y system meddai cyn-lywodraethwr Banc Lloegr, Mark Carney, sydd wedi cael y dasg o gynyddu'r farchnad. Dylai sicrhau bod y farchnad ryngwladol hon yn cael ei rheoleiddio'n effeithiol helpu i leihau gallu cwmnïau i brynu tir a llunio rheolau eu hunain i hawlio sero-net, yn ogystal ag amddiffyn ffermwyr sy'n ymrwymo i gytundebau. Er bod Cod Carbon Coetir a Chod Mawndir yn bodoli yn y DU, mae angen safonau, gorfodaeth a methodolegau mwy cyson yn rhyngwladol. At hynny, mae rhwng 600 a 700 miliwn o dunelli o hen gredydau carbon ar gael o hyd, ac nid yw llawer ohonynt bellach yn cael eu hystyried yn ddilys o ran gwrthbwysu. Mae angen corff llywodraethu i reoli'r farchnad cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

### 6

#### Rhaid i gontractau fod yn glir ac yn amddiffyn y tiffeddiannwr

Rhaid i gytundebau teg a chllir amddiffyn gwerthwyr (hynny yw tiffeddiannwyr) credydau carbon rhag unrhyw fethiannau i gyflawni neu hawliadau atebolrwydd. Nid yw dal a storio carbon naturiol yn barhaol, felly gall tanau coedwig, methiannau sefydlu, afiechyd ac erydiad pridd oll arwain at ryddhau carbon. Rhaid sicrhau bod ffermwyr yn ymwybodol o'r angen am fyfferau, a'r hyd, y goblygiadau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chontractau o'r fath.

### 7

#### Dylid cydnabod a gwobrwyo defnyddiau tir eraill

Mae'r cyfle i gynyddu dal a storio carbon a storio carbon yn y tymor hir trwy amddiffyn a gwella'r storfa bresennol ar dir fferm yn enfawr. Gellir gwneud hyn trwy well rheolaeth o goetir, y gwrychoedd, y rhostiroedd, y gwlypdiroedd, y mawndiroedd presennol a



chynyddu carbon organig y pridd mewn glaswelltiroedd. Er enghraifft, gall cynyda a glaswelltiroedd byd-eang ddal a storio'r hyn sy'n cyfateb i hyd at 8.6 gigaton o garbon deuocsid y flwyddyn, yn ôl adroddiad yn 2019 gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd. Mae hynny'n hafal i oddeutu 1.3 gwaith holl allyriadau'r Unol Daleithiau'r flwyddyn honno, yn ôl data llywodraeth yr Unol Daleithiau.

Byddai hyn hefyd yn sicrhau y gall cynyddu dal a storio carbon weithio ochr yn ochr â systemau ffermio, cynhyrchu bwyd, cymunedau gwledig a chynefinoedd presennol, yn hytrach na dull coedwigo cyffredinol fel y gwelir yn Seland Newydd, neu ganolbwyntio'n llwyr ar blanhigfeydd coed newydd.

# 8

## Mae angen Cod Carbon Pridd unigol

Mae amddiffyn ac adeiladu strwythur y pridd trwy leihau trin y tir, glaswelltiroedd llawn rhywogaethau, rheoli pori da byw a chynyddu gorchudd coed hefyd yn cynnig nifer o fuddion i gynhyrchiant a bioamrywiaeth ar dir fferm. Gall pridd hefyd ddarparu storfa garbon fwy gwydn o'i chymharu â choed oherwydd mwy o sychder, tanau gwyllt a chlefydau. Dylai'r Cod Carbon Pridd gael ei ddatblygu fel gyda Chod Mawndir a Chod Carbon Coetir, i ddarparu llywodraethu ledled y DU a chwarae teg i ffermwyr. Byddai hyn hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i ffermwyr da byw gynyddu dal a storio carbon ar y fferm.

**Ydych chi'n gwybod?**

**Mae traean o garbon y Ddaear yn cael ei storio mewn priddoedd glaswelltir; maent yn storio carbon fel deunydd organig pridd tua 3.5 gwaith yn fwy na phlanhigion.**

# 9

## Mae angen achredu a safoni carboniaduron

Mae ffermwyr yn cydnabod yr angen i gynnal archwiliadau carbon ar gyfer eu fferm, boed hynny ar gyfer meincnodi neu ar gyfer eu cytundeb llaeth. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod nifer o wahanol garboniaduron ar gael, pob un yn wahanol i'w gilydd mewn rhyw ffordd. Yn amlwg, mae angen carboniadur safonol neu garboniadur sy'n cwrdd â safon achrededig; yn gyntaf i ffurfio llinell sylfaen i nodi pa mor 'wyrdd' yw amaethyddiaeth yng Nghymru; yn ail i helpu siapio'r cynllun cymorth amaethyddol yn y dyfodol; ac yn drydydd i nodi a oes unrhyw greydau ar ôl i'w gwerthu y tu hwnt i giât y fferm ar ôl gwrthbwysu allyriadau'r diwydiant.

## Mae'n rhaid cyfrifo 'Defnydd Tir, Newid i Ddefnydd Tir a Choedwigaeth' a dal a storio carbon fferm o fewn allyriadau fferm

Mae llawer o gyrff a sefydliadau - fel y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru - o'r farn na ellir gwrthbwysu allyriadau amaethyddol gan garbon sy'n cael ei storio trwy fentrau 'defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth' yn eu cyfrifiadau, felly unwaith y bydd tir amaethyddol wedi'i blannu â choed, nid yw bellach yn cael ei adnabod fel tir fferm. Mae hyn yn methu â chydabod bod llawer o sinciau carbon 'defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth' yn aml ar dir fferm ac wedi'u ffurfio o ganlyniad i ffermio, fel gwrychoedd, carbon organig pridd mewn porfeydd a choetir ar y fferm. Bydd sicrhau bod carboniaduron a Llywodraethau yn cydnabod y berthynas rhwng allyriadau amaethyddol a 'defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth' yn annog ffermwyr a rheolwyr tir i gynyddu dal a storio carbon trwy fentrau fel 'gwrychoedd ac ymylon' yn hytrach na cholli carbon o'r fath i endid arall.

# 10



Tachwedd 2021